ARIAN MAINT DOSBARTHIADAU BABANOD AC IAU

Dyddiad Creu: Awst 2012
Newidiwyd ddiwethaf: Ionawr 2012
Awdur: Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau

Cefndir

Fe osododd y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998 ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i gyfyngu dosbarthiadau babanod i ddim mwy na 30 o ddisgyblion. Mae'r targed hwn yn berthnasol i ddosbarthiadau derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 a gorfodwyd ef o 2001 ymlaen. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i sicrhau fod awdurdodau addysg lleol ac ysgolion yn cadw maint dosbarthiadau cynradd i 30 neu lai. Nid oes gofyn statudol i gyfyngu maint dosbarthiadau CA2 i 30, fodd bynnag mae Sir Ddinbych yn ymroddedig i orfodi hyn yn unol â'r gofyn CA1.

Nod y polisi hwn yw pennu'r meini prawf dan y rhain y bydd ysgolion yn Sir Ddinbych yn gymwys i dderbyn arian maint dosbarthiadau. Nid yw disgyblion meithrin yn dod dan y polisi hwn.

Gall problemau maint dosbarthiadau godi pan:

- fo ysgol yn dysgu dosbarthiadau o oedran cymysg ac fe dderbynnir mwy o ddisgyblion na'r nifer derbyn mewn grŵp(iau) blwyddyn penodol oherwydd lleoliad anghysbell yr ysgol;
- oherwydd maint, cynllun a defnydd o'r ysgol, fod nifer derbyn yr ysgol yn caniatáu gormod o ddisgyblion mewn grwpiau blwyddyn penodol i'w trefnu i ddosbarthiadau o un oedran;
- fo'r Awdurdod yn derbyn nifer uchel o geisiadau o fewn y gylch derbyn arferol ar gyfer ysgol(ion) mewn ardal benodol;
- fo'r Awdurdod yn derbyn nifer uchel o geisiadau y tu allan i'r gylch derbyn arferol ar gyfer ysgol(ion) mewn ardal benodol;
- fo'r ysgol wedi derbyn disgyblion ychwanegol yn flaenorol heb ganiatâd yr Awdurdod Lleol;
- fo galw uchel am ysgolion sy'n darparu addysg ddwyieithog/cyfrwng Gymraeg;
- fo galw uchel am ysgolion sy'n darparu addysg yn seiliedig ar ffydd;
- fo hi'n angenrheidiol creu dosbarth sy'n cynnwys disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Bl2) a disgyblion CA2 (Bl3);

Yn yr achosion hyn, gall ysgolion wynebu problemau gyda'u cyllideb oni allant leihau maint y dosbarthiadau i 30 disgybl erbyn y flwyddyn academaidd ddilynol. Efallai y byddai'n rhaid i ysgolion gyflogi staff ychwanegol i gyflawni rheoliadau maint dosbarthiadau babanod neu'r lefelau a ddymunir gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cam cynradd. Mae'r polisi hwn yn anelu at ddelio â'r materion hyn a chefnogi ysgolion wrth ddyrannu cyllid ychwanegol yn y fformiwla i gefnogi staff ychwanegol lle'n berthnasol a sicrhau bod digon o arian yn cael ei dderbyn i fodloni trothwy o 24 disgybl ym mhob dosbarth. Tybir mai dyma lefel orau disgyblion mewn dosbarth i'w wneud yn ariannol ymarferol.

Bydd y polisi hwn yn cefnogi ysgolion er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Nid oes angen iddynt gymysgu dosbarthiadau ar draws mwy na dau grŵp blwyddyn olynol
- Nid ydynt yn cymysgu dosbarthiadau ar draws cyfnodau allweddol

- Maent yn derbyn cyllid sy'n cyfateb i nifer ar gyfartaledd o 24 disgybl ym mhob dosbarth ym mhob cyfnod allweddol
- Nid ydynt yn dioddef anfantais oherwydd nad oes gan yr ysgol lawer o le yn y dosbarth.

Ni chaiff cyllid ei ddyrannu dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os caiff ysgol ei chategoreiddio fel ysgol fechan dan y trothwy < 50 yna ni fydd yn medru gwneud cais am gyllid gan fod niferoedd isel y dosbarth eisoes wedi eu hystyried o fewn amddiffyniad ysgolion bychain. Mae hyn hefyd oherwydd nad yw'n ariannol ymarferol amddiffyn dosbarthiadau rhag cael eu cymysgu ar draws mwy na 2 o grwpiau blwyddyn olynol pan fo'r nifer yn y cyfnod allweddol cyfan mor isel

- Os caiff ysgol ei chategoreiddio fel ysgol fechan o fewn y trothwy 50-70 yna caiff wneud cais am gyllid ond bydd y dyraniad yn cael ei leihau gan y swm a dderbyniwyd ar gyfer amddiffyn ysgolion bychain

- Os yw ysgol eisoes yn derbyn arian am gael ei huno ar 2 safle ac o fewn y trothwy 0 -105 yna ni fydd yn gymwys i wneud cais am arian gan fod hyn eisoes wedi ei drin o fewn o dyraniad uno.

Sut cyfrifir yr arian?

Yn y Fformiwla Ariannu, mae ysgolion yn derbyn dyraniad fesul disgybl o fewn yr elfen cwricwlwm. Byddai'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol tuag at ariannu athrawon. Yn seiliedig ar y dyraniad hwn, byddai ysgolion yn derbyn digon o arian ar gyfer mwy na chost cyfartalog athro/athrawes ar gyfer pob 24 o ddisgyblion sydd ar y gofrestr. Tra derbynnir bod gan rai ysgolion staff sy'n uchel ar y raddfa UPS mae'n amhosibl ariannu ar sail costau gwirioneddol, felly defnyddir cost gyfartalog bob amser.

Mae'r arian maint dosbarth yn anelu at ddarparu ychwanegiad ariannol i unrhyw ysgol nad oes ganddi nifer cyfatebol o 24 o ddisgyblion ym mhob dosbarth ar draws y cyfnod allweddol cyfan. Caiff y swm ei gyfrifo ar raddfa o £1,500 fesul disgybl a phan gaiff ei ddefnyddio i ychwanegu at gyllid presennol byddai'n darparu mwy na chost cyfartalog athro/athrawes.

Y broses o wneud cais

Caiff cyllid ei gyfyngu i 1 flwyddyn ariannol ac ailystyrir maint dosbarthiadau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw newid mewn amgylchiadau wedi ei ystyried er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael i ysgolion.

Bydd ysgolion yn cyflwyno'r tabl canlynol ym mis Medi bob blwddyn a chaiff y data ei ddefnyddio i bennu dyraniadau maint dosbarth ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. bydd maint dosbarthiadau Medi 2013 yn pennu dyraniadau Ebrill 2014).

Dosbarth / Grŵp Blwyddyn	Nifer Disgyblion	Athro FTE	Lle yn y dosbarth
Meithrin			
Derbyn			
Blwyddyn 1			
Blwyddyn 2			
Blwyddyn 3			
Blwyddyn 3			
Blwyddyn 4			
Blwyddyn 5			
Blwyddyn 6			

Bydd ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd i ddod hefyd yn seiliedig ar y data maint dosbarth gorau sydd ar gael ar y pryd, ond bydd yn destun newid pan gaiff cyllidebau dangosol eu hailgyfrifo bob blwddyn.

NI fydd disgyblion a dderbynnir y tu allan i'r broses dderbyn arferol (h.y. ar ôl 1af Medi) yn denu cyllid ac ni fyddant yn destun rheoliadau maint dosbarth yn ystod y flwyddyn academaidd honno. Byddai gofyn i ysgolion, fodd bynnag, wneud trefniadau i leihau maint dosbarthiadau yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd ac efallai y byddai'n gymwys i dderbyn arian dan y polisi hwn ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd honno os na fedrent fodloni'r rheoliadau bryd hynny.

<u>Enghraifft:</u>

Dosbarth / Grŵp Blwyddyn	Nifer disgyblion	Athro FTE	Lle yn y dosbarth
Meithrin	14	1.00	30
Derbyn	25	1.00	30
Blwyddyn 1	23	1.00	30
Blwyddyn 2	25	1.00	30
Blwyddyn 3	24	1.00	30
Blwyddyn 4	18	1.00	30
Blwyddyn 5	25	1.00	30
Blwyddyn 6	24	1.00	30

<u>Asesiad Cymhwyster</u>

CA1 – ddim yn gymwys

- Cyfanswm y disgyblion ar draws CA1 (ag eithrio meithrin) ydi (25 + 23 + 25) = 73
- Maint optimwm sef 24 ymhob dosbarth ydi (24 x 3) = 72 felly mae ysgol sydd ar hyn o bryd yn derbyn digon o gyllid drwy'r fformiwla cyllid i gwrdd a cost cyfartaledd athro ar gyfer y 3 dosbarth yna.

CA2 – cymwys ar gyfer £7,500

- Cyfanswm y disgyblion ar draws CA2 ydi (24 + 18 + 25 + 24) = 91
- Rhaid i ysgol gynnal 4 dosbarth er mwyn cyrraedd rheoliadau maint dosbarth o 30. Y maint optimwm sef 24 ymhob dosbarth ydi (24 x 4) = 96 felly nid yw'r ysgol yn derbyn digon o gyllid drwy fformiwla cyllid i gwrdd a chost cyfartaledd athro ar gyfer y 4 dosbarth yna. Mae cyllid ychwanegol (96 – 91) = 5 x £1,500 yn cael ei ddarparu.

Ystyriaethau

- Ni ddyrennir arian maint dosbarth i amddiffyn ysgolion rhag gorfod cael dosbarthiadau grwpiau oedran cymysg oni fyddai angen cymysgu ar draws nifer o grwpiau oedran mewn un dosbarth. Disgwylir y dylid cymysgu dosbarthiadau olynol lle bo angen er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau.

- Nid yw cael dosbarth o lai na 24 yn arwain at hawl awtomatig i arian maint dosbarth oherwydd os oes gan yr ysgol nifer yn cyfateb i 24 fesul dosbarth ar draws y cyfnod allweddol cyfan, yna bydd yr arian cyfatebol wedi ei dderbyn trwy'r cyllid fesul disgybl sylfaenol o fewn y dyraniad cwricwlwm.

- Derbynnir cyllid arwyddocaol eisoes gyda'r fformiwla ariannu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sydd y tu allan i'r dyraniad fesul disgybl sylfaenol.

- Ni ddisgwylir bod dosbarthiadau yn cael eu had-drefnu er mwyn cael 24 ym mhob un; 24 yw'r lleiaf a dybir yn angenrheidiol i ddenu digon o arian ar gyfer athro/athrawes cyfartalog yn y dosbarth. Nid oes angen i ysgolion gael 24 union ym mhob un o'u dosbarthiadau cyn belled â bod y cyfanswm ar draws y cyfnod allweddol cyfan yn dod i 24 ar gyfartaledd i ddibenion ariannu.